OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 220 (Cy.27)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Chwefror 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Chwefror 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *29 Chwefror 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a rodddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 2(2)(a) a 190(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008, a deuant i rym ar 29 Chwefror 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

ystyr "y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council*") yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol; a

ystyr "Cynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council's Scheme*") yw Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

**3.** Y swm at ddibenion adran 2(2) o'r Ddeddf (cyhyd â bod y swm yn fwy na £19,500) yw'r swm hwnnw a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol o dro i dro o ran swyddi llawnamser o dan awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr fel y swm a ddynodir ar gyfer pwynt 49 ar y golofn gyflog

(**1**) 1989 (p.42).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2(2)(a) a 190(1), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Gymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

ar y graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion awdurdod lleol a ymgorfforir yng Nghynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

**Dirymu**

**4.** Dirymir Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Rhif 2) 1990(**3**).

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

3 Chwefror 2008

(**3**) O.S. 1990/1447.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gan adran 2(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 baratoi a chynnal rhestr o swyddi y mae cyfradd y cydnabyddiaethau ariannol blynyddol mewn perthynas â hwy yn £19,500 neu'n fwy na hynny neu'n swm uwch a bennir neu a benderfynir o dan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn darparu mai'r swm uwch hwnnw yw'r swm a bennir o dro i dro gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol fel yr un sy'n gymwys i bwynt 49 ar y golofn gyflog ar eu graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion llywodraeth leol.

Mae'r Rheoliadau'n dirymu Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Rhif 2) 1990.